Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

# KOINONIA

Gofalaeth Glannau Ogwr


Rhifyn 99 Hydref 13, 2024

## Diolchgarwch

**'Boed fy mywyd oll yn ddiolch, Dim ond diolch yw fy lle,'**

Geiriau i emyn William Williams sydd yn ein hatgoffa fod lle i ddiolch. A ninnau yng nghanol tymor y cynhaeaf mae cymaint i ddiolch amdano, wrth reswm am y cynhaeaf, am y byd, am gymdeithas a theulu'r ffydd, am deulu a ffrindiau. Wrth reswm mae cyfnodau lle mae hi'n anodd diolch.

Dros yr wythnosau diwethaf rydw i a'r teulu yn dilyn profedigaeth Bethan wedi profi cymaint o gariad a chysur yn y canoedd o gardiau, negesau ffôn, galwadau ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol. Er y sefylla o dristwch a galar mae lle i ddiolch yn ogystal. Wrth i mi fynd ati i baratoi teyrnegd i Beth, rhywbeth oedd rhaid gwneud oedd ***dathlu a diolch*** am ei bywyd. Ac felly yng nghanol y dagrau mae diolch yn rhan gwbl anatod o'n galar. Paul sydd yn dweud *'ym mhob peth rhowch* ddiolch' Nid dweud i ni fod yn ddiolchgar **am** bob peth sydd yma ond **ym** mhob peth. Ym mhob sefyllfa. Ni waneth yr adnod honno daro deuddeg tan wythnos diwethaf wrth i mi draddodi'r deyrnged.




Hyd yn oed pan fydd popeth yn edrych yn dywyll mae lle i ddiolch.

Heddiw beth bynnag yw'r sefyllfa byddem yn mynd trwyddo, mae'r Arglwydd yn gofyn i ni bwyso arno, mae'n ein cysuro ac yn ffynhonnell ein diolch trwy ei fab Iesu Grist.

Un adnod sydd yn ein hanog i ddiolch ***'nid yw cariad byth yn darfod'*** Y cariad a brofwyd yng Nghrist a'i gadarnhau yn yr Ysbryd i bob un ohonom. Ac felly '***Boed fy mywyd oll yn ddiolch, Dim ond diolch yw fy lle,'***

Hoffwn fachu ar y cyfle o'm rhan i a'r teulu am bob arwydd o gydymdeimlad rydym wedi ei brofi yn ystod ein profedigaeth. Am eich gweddïau, eich cariad a'ch cysur .

## Ble mae'r Asyn 2?

Yn dilyn llwyddiant yn nifer y plant ddaeth i weld y ddrama Nadolig llynedd 'Ble mae'r Asyn?' bydd cyfarfod agored i bawb sydd yn dymuno i drafod trywydd y perfformiad Nadolig eleni.

**Cyfarfod pnawn Sul nesaf Hydref 20 yn Tabernacl Penybont am 3yp.**

## Stiwdio Ogwr

Mae Stiwdio Ogwr yn ôl a rydym angen eich help chi.

Unwaith y mis bydd Dylan yn cynnal 'Amser Paned' lle bydd cyfle i sgwrsio gyda rhai unigolion dros baned.

Os oes gan rhai ohonoch ddiddordeb defnyddio'r offer yn y stwidio a mynd ati i greu Podcast rhoch wybod i Dylan.

### O e d f a o n

**Hydref 20, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

**Hydref 27, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

**Tachwedd 3, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

### Gofalaeth Glannau Ogwr


glannauogwr.cymru

**Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr**
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

**Tabernacl, Porthcawl**
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

**Gweinidog**
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com




## Adnod yr Wythnos

16 Peidiwch byth â stopio gorfoleddu! 17 Daliwch ati i weddïo.
18 Byddwch yn ddiolchgar beth bynnag ydy'ch sefyllfa chi.
Dyna sut mae Duw am i chi ymddwyn, fel pobl sy'n perthyn i'r Meseia Iesu. - *1 Thesaloniaid 5:16-18*

## Pwyntiau Gweddi

- Gweddi dros y sefyllfa yn y Dwyrain canol. Gasa, Lebanon.
- Gweddi dros heddwch yn y Dwyrain Canol ac yn yr Wcrain. Ac ym mhob man lle mae gwrthdaro.
- Gweddi dros deuluoedd sydd mewn tlodi a thros y banciau bwyd.
- Gweddi dros gleifion o fewn yr ofalaeth.
- Gweddi dros weithgarwch yr ofalaeth hyd at y Nadolig.

**CHURCHES TOGETHER IN PORTHCAWL**
**EGLWYSI YNGHYD YM MHORTHCAWL**

## A ydym gyda'n gilydd?

**Sut gallwn ni deithio gyda'n gilydd mewn ffydd a gweithred**

**Ymunwch gyda ni mewn cyfarfod blynyddol ymarferol, sesiwn dan ofal Jennie Weaver, Cymorth Cristnogol**

**Croeso cynnes i bawb**
**Bydd lluniaeth ar gychwyn y cyfarfod**

**Nos Fercher 23ain o Hydref 6-8yh**
**YMCA, John Street**
**Porthcawl, CF36 3AP**

## Archeb Pwdinau Nadolig

Er budd Apêl Ffynhonnau Byw bydd Robin Samuel yn casglu archebion Pwdinau Nadolig.
Os hoffech Archebu y pris yw £20.
Mae taflen archebu yn y cyntedd neu mynwch air gyda Robin.

